

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Adroddiad Blynyddol 2006-2007



Rhagfyr 2007

Mae copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael oddi wrth:

TAAAC,

Uned 32,

Parc Menter Ddole Road,

Llandrindod Wells, Powys, LD1 6PF.

Ffôn: 01597 829800

Ffacs: 01597 829801

e-bost: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational
Needs Tribunal for Wales

At: Jane Hutt AC
Gweinidog dros Blant, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tachwedd 2007

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy mhedwerydd Adroddiad Blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'r adroddiad yn manylu ar weithgareddau'r Tribiwnlys am y flwyddyn 1 Medi 2006 i 31 Awst 2007.

Rhiannon Ellis Walker
Llywydd, TAAAC

Uned 32, Parc Menter Ddole Road, Llandrindod, Powys, LD1 6PF
Unit 32, Ddole Road Enterprise Park, Llandrindod Wells, Powys, LD1 6PF
Llinell Gymorth | Helpline: 01597 829800
Gweinyddu Cyffredinol | General Administration: 01597 829802
Ffacs | Fax: 01597 829801 • E-bost | E-mail: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk

Cynnwys

Rhagair y Llywydd	1
Nifer yr Apeliadau AAA	5
Y rhaniad rhwng Bechgyn/Genethod o ran Apeliadau AAA	6
Cyflymder y Cwblhau	7
Nifer yr Apeliadau fesul AALI	8
Canlyniadau Apeliadau - fesul AALI	9
Mathau o Apêl	10
Natur AAA	11
Math o AAA	12
Canlyniad yr Apeliadau - Cyffredinol	14
Canlyniad yr Apeliadau - yn ôl Ysgol	15
Canlyniad yr Apeliadau - yn ôl Natur yr AAA	16
Monitro Ethnig	16
Honiadau o Wahaniaethu ar sail Anabledd	17
Apeliadau i'r Uchel Lys	17
Cwynion	17
Ysgrifenyddiaeth	17
Gwariant	18
Aelodau'r Tribiwnlys	19
Atodiad 1	20

Rhagair y Llywydd

Dyma fy mhedwerydd adroddiad blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys AAA Cymru (TAAAC). Mae'r adroddiad yn nodi nifer, math a chanlyniadau'r apeliadau AAA a honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd a wnaed yn ystod y cyfnod 1 Medi 2006 i 31 Awst 2007.

Gyda mabwysiadu Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 yn ddiweddar, mae hwn wedi bod, ac mae'n ymddangos y bydd, yn amser diddorol a heriol i driwiwnlysoedd: i'r rhai hynny sydd yn neu a fydd yn gweithredu o dan adain y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd sydd newydd ei sefydlu a'r rhai hynny, fel triwiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, sy'n cadw eu statws annibynnol.

Fel y gwyddom, mae pwerau newydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cynnwys o fewn Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r posibilrwydd o roi gallu i'r Cynulliad lunio Mesurau ym maes Anghenion Addysgol Arbennig yn un i'w groesawu cyn belled ag y gall sefydlu system a all fodloni anghenion pob plentyn gydag ystod o anghenion o'r fath yn well.

Pa ffurf bynnag a gymer deddfwriaeth yn y dyfodol, yn fy marn i mae'n hanfodol fod hawl statudol yn cael ei gadw i apelio a phrofi penderfyniadau am nodi a darparu Anghenion Addysgol Arbennig.

Edrychaf ymlaen at yr heriau sydd o'n blaen ac at sicrhau bod y Tribiwnlys mewn sefyllfa dda i'w hateb.

Apeliadau AAA

Gostyngiad yn nifer yr apeliadau

Am y tro cyntaf ers sefydlu'r Tribiwnlys yn 2003, rwyf yn adrodd am gostyngiad yn nifer yr apeliadau cofrestredig yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y cyfnod rydym wedi cofrestru 118 o apeliadau, gostyngiad o 21% ar y nifer uchaf erioed o apeliadau'r llynedd.

Bob blwyddyn ers 2003 rydym wedi gweld cynnydd cyson yn yr apeliadau a gofrestrwyd. Nid yn unig mae'r flwyddyn hon wedi mynd yn groes i'r duedd honno, ond yn ystod y cyfnod diwethaf hwn, rydym wedi gweld dim ond cynnydd bychan ar yr 117 o apeliadau a gofrestrwyd yn ystod ein blwyddyn gyntaf.

Er ei bod yn anodd egluro'r rhesymau sy'n sail i'r nifer gostyngol o apeliadau, fe'm calonogir bod niferoedd yn AALI Caerdydd a Chasnewydd wedi gostwng, yn sylweddol yn achos yr olaf. Mewn awdurdodau eraill hefyd, mae nifer yr apeliadau a gofrestrwyd ar y cyfan wedi parhau yn weddol sefydlog neu wedi gostwng. Y mae er hynny rai eithriadau lle gwelwyd cynnydd sylweddol.

Mae nifer yr apeliadau a wnaed ond nas cofrestrwyd wedi cynyddu. O'r 20 o apeliadau heb eu cofrestru, cafodd 10 eu tynnu'n ôl, a chafodd un ei gydsynio cyn cofrestru. Methodd 4 arall â chael eu cofrestru oherwydd eu bod yn dod y tu allan i'n hawdurdodaeth neu roedd yr apelwyr yn methu â bodloni'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer cofrestru. Cafodd y 5 oedd yn weddill eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn Tribiwnlys ganlynol. Rwy'n bryderus fod nifer yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau i wrthod darparu datganiad i blant gydag AAA wedi cynyddu o 7% o gyfanswm nifer yr apeliadau a dderbyniwyd y llynedd i 16% o gyfanswm nifer yr apeliadau a dderbyniwyd eleni. Mae swmp yr apeliadau yn ymwneud â gwrthod asesu, cynnwys rhannau 2 a 3 y datganiad a chynnwys rhannau 2, 3 a 4 y datganiad sy'n ffurfio 25%, 24% a 21% yn y drefn honno o gyfanswm nifer yr apeliadau a gofrestrwyd.

Eglurodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei sefyllfa yn ddiweddar ynglŷn â pholisïau cyffredinol, h.y. na ddylai AALI weithredu polisïau o'r fath ac mae'r ddyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol ac nid ysgolion, i nodi a mesur darpariaeth. Mae hwn yn symudiad sydd o gymorth mawr ac mae'r Tribiwnlys yn disgwyl gweld bod darpariaeth yn cael ei nodi a'i mesur yn glir gan AALI yn y dyfodol. Rwyf wedi cynnwys copi o lythyr Llywodraeth y Cynulliad yn Atodiad 1. Ceir tystiolaeth ei bod yn ymddangos bod polisïau cyffredinol ar gyfer asesu anghenion plant yn bodoli mewn ychydig o achosion. Unwaith eto, byddwn yn anghymeradwyo gwyro oddi wrth y ddeddfwriaeth yn y dull hwn.

Honiadau am Anabledd

Mae'r maes hwn yn dal yn elfen fach o waith y Tribiwnlys. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cafwyd 7 o honiadau, y cafodd dau eu tynnu'n ôl cyn cofrestru, cofrestrwyd 4 ac mae un o dan ystyriaeth. O'r 4 honiad a gofrestrwyd aeth 2 ymlaen i wrandawriad y cafodd 1 ei daflu allan ac 1 ei wrthod.

Er ei bod yn ymddangos nad oes unrhyw wasanaeth eirioli yn bodoli eto ar gyfer honiadau yn ymwneud ag anabledd, rwy'n cael fy nghalonogi er hynny fod Llywodraeth y Cynulliad yn y flwyddyn ddiwethaf wedi cynhyrchu canllawiau ar Hyrwyddo Cydraddoldeb o ran Anabledd mewn ysgolion.

Rwy'n deall mewn achosion lle mae cyrff cyfrifol wedi cydsynio â'r honiadau neu lle gwnaed gorchymyn o blaid yr hawlydd, bod AALI ac ysgolion wedi gweld yr atebion (yn arbennig hyfforddiant ysgol gyfan) fel cyfle yn hytrach nag fel dull o gosbi. Dyna'r bwriad. Os gall y nifer fechan o honiadau arwain at well dealltwriaeth o ddyletswyddau yn ymwneud ag anabledd a'r dull o'u cymhwyso yn ymarferol, yna mae hynny o fudd amlwg.

Rheoliadau Tribiwnlysoedd

Mae'r Tribiwnlys hyd yma wedi gweithredu o dan Reoliadau Tribiwnlysoedd AAA 2001 (fel y'u diwygiwyd). Rydym yn falch fod LICC wedi cytuno i adolygu ac ail-wneud y rheoliadau fel eu bod yn cael eu teilwrio yn benodol i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Dylai hyn ddod â budd ychwanegol sef sicrhau y bydd y rheoliadau yn cael eu cynnwys mewn un offeryn statudol.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf rydym wedi cael digon o brofiad i nodi meysydd lle ceir gwendidau a dryswch yn y rheoliadau cyfredol. Rydym yn croesawu'r cyfle i'r rheoliadau bellach ymdrin â materion fel y weithdrefn adolygu a gwneud y rheolau yn gliriach i bawb y bo hyn yn ymwneud â hwy.

Rwy'n deall y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori gyda defnyddwyr y Tribiwnlys a phartïon eraill sydd â diddordeb yn ystod yr hydref, gyda'r bwriad o wneud rheoliadau newydd yn gynnar yn 2008. Byddwn yn cefnogi ymrwymiad eang a dwfn yn y broses ymgynghori.

Cyn gynted ag y bydd rheoliadau Tribiwnlys AAA Cymru wedi eu llunio, cyhoeddir llenyddiaeth newydd yn ymwneud â'r Tribiwnlys i ddefnyddwyr, gan roi ystyriaeth lawn i'r offeryn statudol.

Apeliadau Plant

Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth Peter Clark, Comisiynydd Plant cyntaf Cymru. Roedd Peter yn eiriolwr egnïol, dewr a doeth dros blant a bydd colled fawr ar ei ôl.

Un o'i lu o gymynroddion oedd y cynnig y dylai'r hawl i apelio i Dribiwnlys AAA Cymru, sy'n cael ei fwynhau gan rieni yn unig ar hyn o bryd, gael ei ymestyn i blant. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awr yn gweithio tuag at gynhyrchu dogfen ymgynghori ynglŷn â'r mater diddorol a chymhleth hwn. Er y bydd y canlyniad yn fater polisi yn y pen draw a bod yn rhaid iddo gael ei benderfynu gan LICC, bydd y Tribiwnlys yn gweithio gydag eraill yn ystod y gwaith o ddatblygu'r papurau ymgynghori a thu hwnt.

Gwasanaeth Tribiwnlysoedd

Cymerodd y Prif Weinidog y penderfyniad y bydd Tribiwnlys AAA Cymru a Thribiwnlysoedd eraill Cymru sydd wedi eu datganoli yn cadw eu statws gyfredol ac felly nid ydym wedi ymuno â'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Y mae er hynny yn amser diddorol tu hwnt ar gyfer datblygu tribiwnlysoedd ac rwy'n sicr y byddwn yn parhau i weithio gyda a dysgu oddi wrth awdurdodaethau eraill.

Er y byddwn yn parhau y tu allan i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, bydd mabwysiadu Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodiadau 2007 yn cael effaith ar dribiwnlysoedd datganoledig fel ni ein hunain. Ni fydd apeliadau yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd bellach yn cael eu gwneud i'r Uchel Lys, ond yn hytrach i Haen Uchaf y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Gwasanaeth wedi i'r amserlen a mecaneg y newid hwn gael eu sefydlu.

Un o effeithiau eraill y Ddeddf fydd sefydlu Pwyllgor Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru (Cyngor y Tribiwnlysoedd yn flaenorol). Ystyriaf y bydd hyn yn gam cadarnhaol enfawr, ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad, i symud yr agenda yn ei blaen yng Nghymru.

Nifer yr Apeliadau AAA


Yn ystod y flwyddyn, o 1 Medi 2006 i 31 Awst 2007, derbyniodd Tribiwnlys AAA Cymru 138 o apeliadau am benderfyniadau AAA.

Yn ystod y flwyddyn, cofrestrwyd 118 gyda'r gweddill naill ai'n cael eu dwyn ymlaen i'r cyfnod adrodd nesaf neu'n cael eu gwrthod neu eu tynnu'n ôl cyn eu cofrestru.

Yn ychwanegol at yr 118 o apeliadau a gofrestrwyd, ymdriniwyd hefyd gyda 31 o apeliadau na lwyddwyd i ymdrin â hwy o fewn blwyddyn flaenorol y Tribiwnlys.


Mae'r cyfnod adrodd hwn wedi gweld gostyngiad yn nifer yr apeliadau a gofrestrwyd, gwyriad nodedig oddi wrth y duedd tuag i fyny yn ystod tair blynedd flaenorol y Tribiwnlys.

Apeliadau AAA a gofrestrwyd yn ol blwyddyn Tribiwnlys



Y rhaniad rhwng Bechgyn/Genethod o ran Apeliadau AAA

Yn ystod y flwyddyn, cofrestrwyd 87 o apeliadau AAA yn ymwneud â bechgyn, y ffigur cyfatebol ar gyfer merched oedd 31. Mae'r ffigyrau ar gyfer bechgyn wedi parhau yn sefydlog dros gyfnodau adrodd 2005-06 a 2006-07 gyda 74% o'r holl apeliadau yn ymwneud â bechgyn. Yn y blynyddoedd 2003-04 a 2004-05 roedd 73% a 77% o'r holl apeliadau a dderbyniwyd yn gysylltiedig ag AAA bechgyn.



Cyflymder Cwblhau'r Gwrandawriad

Mae'r adran hon yn ymdrin â pha mor hir, yn nhermau dyddiau gwaith, a gymerodd rhwng i apêl gael ei chofrestru ac i benderfyniad gael ei gyhoeddi.

Mae nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i gwblhau apeliadau (drwy wrandawriadau) wedi gostwng i 82.9 o gyfartaledd o 96.7 yn y flwyddyn flaenorol. O blith y 36 o achosion a glywyd, bu'n rhaid gohirio 12 oherwydd cymhlethdod yr achos neu o ganlyniad i gyflwyno tystiolaeth annigonol.

Nifer y penderfyniadau a gyhoeddwyd	36
Nifer cyfartalog o ddyddiau gwaith	82.9

Nifer cyfartalog y dyddiau i benderfyniad gael ei roi yw ychydig o dan 8.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno sut y trafodwyd 149 o apeliadau (118 a gofrestrwyd ym mlwyddyn tribiwnlys 2006/07 a 31 a ddygwyd ymlaen o flwyddyn 2005/06), gan gynnwys y nifer o dan ystyriaeth, a ddygir ymlaen i flwyddyn tribiwnlys y flwyddyn nesaf. Bu gostyngiad yn nifer y penderfyniadau (o 48 i 36), mae canran yr apeliadau naill ai a dynnwyd yn ôl gan rieni neu a gydsyniwyd gan AALI wedi parhau yn sefydlog ar 60% o gyfanswm nifer yr apeliadau a gofrestrwyd (o'i gymharu â 54% a 50% ym mlynnyddoedd 04/05 ac 03/04). Byddwn yn parhau i fonitro nifer yr apeliadau naill ai sy'n cael eu tynnu'n ôl neu eu hildio yn ddiweddar yn y broses a'r effaith a gaiff hyn ar wariant.

Mae canran yr apeliadau a gofrestrwyd ond sy'n disgwyl am wrandawriad, 16% yn gyson gyda'r llynedd ac yn ostyngiad ar flynyddoedd blaenorol: 26.54% yn 04/05 a 27.4% yn 03/04.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn roedd 1 apêl ar ôl o flwyddyn Tribiwnlys 2005/06. Roedd hyn yn ganlyniad i newidiadau technegol i'r hysbysiad o apêl a datblygiadau dilynol.

06-07	Gwir	Canran	05-06	Gwir	Canran
Penderfynwyd	36	24.16	Penderfynwyd	48	24.87
Tynnwyd yn ôl	58	38.92	Tynnwyd yn ôl	79	40.93
Ildiwyd	31	20.80	Ildiwyd	35	18.13
Dilëwyd	0	0.00	Dilëwyd	0	0.00
Yn disgwyl penderfyniad	24	16.10	Yn disgwyl penderfyniad	31	16.06
Cyfanswm	149	100.00	Cyfanswm	193	100.00

¹ Yn unol â rheoliadau'r Tribiwnlys nid yw'r canlynol yn cael eu cynnwys fel dyddiau gwaith: dydd Sadwrn a dydd Sul, unrhyw ddiwrnod ym mis Awst, unrhyw ddiwrnod o 25 Rhagfyr i 1 Ionawr yn gynhwysol, a gwyliau banc..

Apeliadau fesul AALI

Mae'r tabl hwn yn nodi nifer yr apeliadau a gofrestrwyd fesul AALI yn ystod blwyddyn Tribiwnlys 06/07.


	06/07	(Fesul 10,000 o boblogaeth ysgol)	05/06	04/05	03/04
Blaenau Gwent	2	1.79	4	3	0
Pen-y-bont ar Ogwr	3	1.30	2	2	2
Caerffili	12	6.74	3	1	3
Caerdydd	26	4.96	37	33	35
Caerfyrddin	5	1.77	5	6	5
Ceredigion	2	1.95	2	2	1
Conwy	6	3.37	1	4	8
Dinbych	4	2.35	2	6	0
Fflint	1	0.40	0	2	3
Gwynedd	1	0.54	2	3	3
Merthyr Tudful	2	2.04	1	2	0
Mynwy	9	6.36	11	8	5
Castell Nedd a Phort Talbot	2	0.92	14	7	6
Casnewydd	19	7.51	45	30	15
Pembrokeshire	2	1.03	0	2	0
Powys	7	3.36	5	3	7
Rhondda Cynon Taff	4	0.98	3	2	4
Abertawe	4	1.10	7	5	7
Torfaen	4	2.43	1	4	3
Bro Morgannwg	2	0.90	1	0	8
Wrecsam	0	0.00	2	1	2
Ynys Mon	1	0.99	2	1	0

Canlyniadau fesul AALI

Mae'r tabl hwn yn dangos canlyniadau yn 2006/07 fesul AALI. Mae'r ffigurau yn cynnwys apeliadau cofrestredig a ddygwyd ymlaen o 2005/06 ond a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Lle nad yw apêl wedi ei chadarnhau cofnodwyd hon fel 'un a wrthodwyd'.

AALI	Ildiwyd gan AALI	Tynnwyd yn ôl gan y rhieni	Cadarnhawyd yn rhannol neu yn llawn	Gwrthodwyd neu fe'i taflwyd allan yn y gwrandawriad	Yn disgwyl penderfyniad
Blaenau Gwent		1	2		1
Pen-y-bont ar Ogwr	2	1			
Caerffili	6	3	1		3
Caerdydd	5	10	13	2	8
Caerfyrddin	1	1	2		1
Ceredigion				1	1
Conwy		3	1	1	2
Dinbych		4	1		
Fflint	1				
Gwynedd		1			
Merthyr Tudful	1	1			
Mynwy	1	5	1		2
Castell Nedd a Phort Talbot	1	2	1	1	
Casnewydd	4	16	3	1	1
Pembrokeshire		2			
Powys	4	1	2		2
Rhondda Cynon Taff		2	1		1
Abertawe	2	3			
Torfaen	2	1		1	1
Bro Morgannwg		1			1
Wreccsam				1	
Ynys Mon	1				

Math o Apêl



- Gwrthodiad i Asesu
- Gwrthodiad i wneud Datganiad
- Gwrthodiad i Ail-Asesu
- Yn erbyn penderfyniad i beidio â pharhau â'r Datganiad
- Cynnwys Rhannau 2 a 3
- Cynnwys Rhannau 2, 3 a 4
- Cynnwys Rhan 3
- Cynnwys Rhan 4
- Cynnwys Rhannau 3 a 4

Math o Apêl ²	% o Apeliadau Gyfanswm yr 2006/07	% o Apeliadau 2005/06	% o Apeliadau 2004/05	% o Apeliadau 2003/04
	Cyfanswm yr Apeliadau 118	Cyfanswm yr Apeliadau 150	Cyfanswm yr Apeliadau 127	Cyfanswm yr Apeliadau 117
Gwrthodiad i Asesu	24.6	23.3	25.2	39.3
Gwrthodiad i wneud Datganiad	16.1	7.3	11.0	12.0
Gwrthodiad i Ail-Asesu	1.7	1.3	1.6	1.7
Yn erbyn penderfyniad i beidio â pharhau â'r Datganiad	2.5	3.3	2.4	1.7
Cynnwys Rhannau 2 a 3	23.7	21.3	15.7	18.0
Cynnwys Rhannau 2, 3 a 4	21.2	23.3	26.8	11.1
Cynnwys Rhan 3	5.1	10.0	9.4	6.8
Cynnwys Rhan 4	2.5	4.7	5.5	5.1
Cynnwys Rhannau 3 a 4	2.5	5.3	2.4	4.3


Eleni rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr apeliadau am wrthodiad AAL i wneud datganiadau a chynnydd bach am wrthodiad i asesu. Mae apeliadau sy'n ymwneud â materion heblaw cynnwys datganiadau wedi cynyddu o fod yn ffurfio 35% o'r holl apeliadau yn 05/06 i 45% yn 06/07; yn 03/04 roedd yr un mathau o apêl yn cyfrif am oddeutu 55% o'n llwyth gwaith.

Apêl yn ôl Natur yr Angen Addysgol Arbennig

Mae'r wybodaeth isod yn rhestru apeliadau yn ôl natur yr AAA. Unwaith eto rydym wedi cofnodi anghenion y cyfeiriwyd atynt gan rieni a/neu'r AAL adeg cyflwyno'r apêl. Fel y gellid disgwyl, mae apeliadau ynglŷn ag Anhwylder yn y Sbectwm Awtistig ac Anawsterau Dysgu Penodol a Chymedrol yn cyfrif am dros hanner yr holl apeliadau cofrestredig.

² Canran i 1 lle degol

Math o AAA



- Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig
- Anawsterau Ymddygiad ac Emosiwn
- Nam ar y Clyw
- Anawsterau Dysgu Penodol (gan gynnwys Llythrennedd/Dyspracsia)
- Anawsterau Dysgu Cymedrol
- Anawsterau Corfforol/Meddygol
- Anawsterau Dysgu Difrifol a Lluosog
- Anawsterau Dysgu Difrifol
- Anawsterau Lleferydd ac Iaith
- Nam ar y Golwg
- AAA Lluosog
- Arall/Anhysbys

Apeliadau yn ôl Math	% o Apeliadau Gyfanswm yr 2006/07	% o Apeliadau 2005/06	% o Apeliadau 2004/05	% o Apeliadau 2003/04
Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig	23.7	22.0	29.6	22.2
Anawsterau Ymddygiad ac Emosiwn	6.8	10.7	8.8	6.8
Nam ar y Clyw	2.5	5.3	0.8	3.4
Anawsterau Dysgu Penodol (gan gynnwys Llythrennedd/Dyspracsia)	21.2	19.3	22.4	33.3
Anawsterau Dysgu Cymedrol	10.2	2.0	4	0.9
Anawsterau Corfforol/ Meddygol	9.3	9.3	0.0	0.0
Anawsterau Dysgu Difrifol a Lluosog	5.1	5.3	0.0	0.0
Anawsterau Dysgu Difrifol	0.8	4.0	2.4	4.3
Anawsterau Lleferydd ac Iaith	8.5	9.3	9.6	5.1
Nam ar y Golwg	0.0	0.0	0.0	0.0
AAA Lluosog	6.8	12.7	16	15.4
Arall/Anhysbys	5.1	0	6.4	1.7

Canlyniad yr Apeliadau: Cyffredinol

Fel a ddigwyddodd yn ystod cyfnodau adrodd blaenorol, cafodd dros 75%, yn yr achos hwn 77% o'r holl apeliadau a aeth ymlaen i wrandawriad llawn (h.y. nad oeddent yn destun gorchymyn i'w dileu) eu cefnogi naill ai'n llawn neu yn rhannol. O'r 36 o apeliadau a aeth i wrandawriad llawn, cafodd 8 eu gwrthod.

Math o Apêl	Penderfyniadau a gyhoeddwyd 06/07			Penderfyniadau a Gyhoeddwyd 05/06		
	Cefnogwyd	Gwrthodwyd	Dilëwyd	Cefnogwyd	Gwrthodwyd	Dilëwyd
Yn erbyn Gwrthodiad i Asesu	3	2		1	3	
Yn erbyn Gwrthodiad i wneud Datganiad	2	3		2	1	
Yn erbyn Gwrthodiad i Ail-Asesu	1					
Yn erbyn Penderfyniad i beidio â pharhau â Datganiad	1	2		2		
Yn erbyn cynnwys Rhannau 2 a 3	6			14		
Yn erbyn cynnwys Rhannau 2, 3 a 4	11	1		19	2	
Yn erbyn cynnwys Rhan 3				2	1	
Yn erbyn cynnwys Rhan 4						
Yn erbyn cynnwys Rhannau 3 a 4	4			1		
Cyfansymiau	28	8	0	41	7	0

Canlyniadau'r Apeliadau: Ysgolion

Gwrandawyd 16 o apeliadau a geisiodd newid penderfyniadau yn ymwneud â'r ysgol a enwyd yn rhan 4 datganiad plentyn. Y ffigyrau cyfatebol ar gyfer 05/06, 04/05 ac 03/04 oedd 22, 15 ac 8 yn y drefn honno. O'r 16 o apeliadau, cafodd 1 ei gwrthod, ac ni orchmyynnwyd diwygiadau rhan 4 mewn 6 achos.

	Cefnogwyd newid Rhan 4 y Datganiad	Cefnogwyd newid Rhannau 3 a 4 y Datganiad	Cefnogwyd newid Rhannau 2, 3 a 4 y Datganiad
Ysgol Prif Ffrwd a Gynhelir			1
Ysgol Arbennig Annibynnol wedi ei Chymeradwyo		1	4
Ysgol Arbennig a Gynhelir		1	1
Addysg Gartref			1
Addysg heblaw mewn Ysgol			
Addysg ar y Cyd gan yr Ysgol a'r Cartref			

Canlyniad Apeliadau yn ôl natur yr AAA

Apeliadau yn ôl Math	Penderfyniadau a gyhoeddwyd 06/07		
	Cefnogwyd	Gwrthodwyd	Dilëwyd
Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig	4	2	
Anawsterau Ymddygiad ac Emosiwn	2	1	
Nam ar y Clyw	2		
Anawsterau Dysgu Penodol (gan gynnwys Llythrennedd/Dyspracsia)	7	3	
Anawsterau Dysgu Cymedrol	3	1	
Anawsterau Corfforol/Meddygol	3		
Anawsterau Dysgu Difrifol a Lluosog	3		
Anawsterau Dysgu Difrifol	1		
Anawsterau Lleferydd ac Iaith	2	1	
Nam ar y Golwg			
AAA Lluosog	1		
Arall/Anhysbys			
Cyfanswm	28	8	

Monitro Ethnig

Gwahoddir rhieni i lenwi datganiad monitro ethnig sy'n cyd-fynd â'r hysbysiad o apêl.

	2006/07	2005/06	2004/05	2003/04
Bangladeshi	0	0	1	1
Affricanaidd Croenddu	1	4	1	1
Croenddu arall	0	1	0	0
Pacistanaidd	3	0	0	2
Croenwyn	99	135	120	93
Arall	2	7	1	2
N/C	13	10	24	29

Honiadau o Wahaniaethu ar sail Anabledd

Gwnaed 7 honiad o wahaniaethu ar sail anabledd eleni. Cafodd 2 eu tynnu yn ôl cyn cofrestru, cafodd 4 eu cofrestru ac mae 1 yn disgwyl am benderfyniad. O'r 4 honiad a gofrestrwyd aeth 2 ymlaen i wrandawriad y cafodd 1 ohonynt ei daflu allan ac 1 ei wrthod.

Apeliadau i'r Uchel Lys

Ar hyn o bryd gall rhieni apelio i'r Uchel Lys pan gredant fod penderfyniad Tribiwnlys yn ddiffygiol ar sail pwynt cyfreithiol. Cofrestrwyd 2 apêl yn yr Uchel Lys yn erbyn penderfyniadau TAAAC yn ystod y cyfnod adrodd o'i gymharu â 3 yn y flwyddyn flaenorol, 2 yn 04/05 a dim yn 03/04. Rhoddir crynodeb o'r canlyniadau isod.

Tynnwyd hawliad yn ôl gan y sawl oedd yn apelio: 4

Gwrthodwyd yr apêl: 1

Yn disgwyl am wrandawriad: 2

Cwynion

Gwnaed 4 cwyn ffurfiol i'r Llywydd yn ystod y flwyddyn y daeth 3 ohonynt oddi wrth yr un unigolyn ac a oedd yn ymwneud ag un apêl.

Ysgrifenyddiaeth

Fel bob amser, canmolaf waith caled ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys o ran darparu cefnogaeth ardderchog, amserol ac effeithiol i'r Tribiwnlys.

Gwariant - 1 Ebrill 2006 i 31 Mawrth 2007

Gwariant	2006/07 £(000oedd)
Ffioedd a threuliau'r Llywydd ac aelodau'r Tribiwnlys	105,529
Hyfforddiant y Tribiwnlys	1,460
Llety ar gyfer gwrandawiadau, hyfforddiant a grŵp defnyddwyr	73,073
Treuliau eraill yr apeliadau (hawliadau tystion, cyfieithu ac ati)	8,375
Cyflogau	144,004
Costau teithio a chynhaliaeth y Clercod/ Ysgrifenyddiaeth	11,068
Hyfforddiant y staff	0.097
Treuliau swyddfa (gan gynnwys dosbarthu nwyddau)	5,729
Costau argraffu a chyfryngau	6,246
Ffioedd cyfreithiol	12,890
	368,471
(Llai'r swm a dderbyniwyd oddi wrth y DfES am waith anabled):	(23,353)
	£345,118

Yn ychwanegol at y gwariant uniongyrchol ceir cyfran o'r rhent a chostau cyfleustodau ar y llety a rennir gan y Tribiwnlys, cyfran o tua £20,000, a delir yn ganolog.

(Cyfanswm 2005/06) 363,353

(Cyfanswm 2004/05) 249,732

(Cyfanswm 2003/04) 407,000

Aelodau'r Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn cynnwys yr aelodau canlynol ac maent i gyd naill ai wedi llywyddu gwrandawiadau neu wedi eistedd arnynt yn ystod y flwyddyn 1 Medi 2006 i 31 Awst 2007::

Llywydd	Rhiannon Ellis Walker
Cadeiryddyddion	Mark Allen Jacqueline Blackmore Gwyn Davies Meleri Tudur
Aelodau Lleyg	Sandra Boyle Norman Donovan Gwyn Griffiths Kerena Marchant Gareth Roberts Siân Wyn Siencyn Susan Taylor Andrew Wilson

Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys

Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn gyfrifol am weinyddu'r Tribiwnlys.

Ysgrifennydd	Huw Maguire	Tel. 01597 829803
Arweinydd Tîm yr Apeliadau	Siân Mills	Tel. 01597 829804
Rheolwr Cefnogaeth y Timau	Pam Sansom	Tel. 01597 829802
Clercods	Vikki Slaven	Tel. 01597 829806
	Leon Mills	Tel. 01597 829805
	Sarah Jenkins	Tel. 01597 829809

Rydym hefyd yn gweithredu Llinell Gymorth y Tribiwnlys (01597 829800) a blwch post electronig: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk



Rhiannon Ellis Walker
Llywydd
TAAAC
Uned 32
Parc Menter Ddole Road
LLandrindod Wells
Powys
LD1 6PF

8 Tachwedd 2007

Annwyl Rhiannon

ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (AAA)

1. Yn dilyn Adroddiad Blynyddol Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC), rwy'n ymwybodol o bryderon am bolisiau cyffredinol mewn perthynas ag asesiadau statudol a phennu a mesur y ddarpariaeth yn natganiadau plant; enwi ysgolion mewn datganiadau; a diwygio datganiadau plant sy'n trosglwyddo o un cyfnod ysgol i'r llall. Tybiais y byddai'n ddefnyddiol egluro'r sefyllfa statudol fel y gwelwn ni. O ganlyniad, mae copi o'r llythyr hwn wedi ei yrru I phob Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru.

Polisiau cyffredinol

2. Mae pryder penodol yn ymwneud â pholisiau cyffredinol o ran:

- penderfynu a oes angen cynnal asesiad statudol; a/neu
- pennu a mesur y ddarpariaeth mewn datganiadau plant

Asesiadau statudol

3. Rydym yn ymwybodol fod Awdurdodau wedi datblygu, neu wrthi'n datblygu neu'n diwygio meini prawf ar gyfer asesiadau statudol fel dull o sicrhau mwy o gysondeb wrth i chi wneud penderfyniadau. Wrth gwrs, mae'n agored i chi ddatblygu meini prawf o'r fath fel canllawiau i'ch helpu i benderfynu pryd mae angen cynnal asesiadau statudol. Gallwch chi benderfynu, yn ôl eich disgrisiwn chi, pa feini prawf i'w mabwysiadu. Fodd bynnag, fel Awdurdodau dylech ofalu eich bod yn sicrhau nad yw mabwysiadu meini prawf o'r fath yn arwain at fethu

â chyflawni eich ymrwymiad i benderfynu, yng ngoleuni amgylchiadau unigol pob achos, a gododd y ddyletswydd i gynnal asesiad o dan adran 323 Deddf Addysg 1996. Yn ein barn ni, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, dylai unrhyw feini prawf a gyhoeddwyd ei gwneud yn glir y bydd yr Awdurdod, er bod ganddo o bosib feini prawf i lywio ei benderfyniadau, yn ystyried pob achos ar sail teilyngdod o fewn amodau darpariaethau Deddf Addysg 1996.

4. Er y dylech chi, fel awdurdodau lleol, fod yn ymwybodol na ddylech weithredu polisi cyffredinol ar gyfer pob plentyn, ymddengys fod rhai o'r farn y gellir datblygu polisiau cyffredinol ar gyfer grwpiau penodol o blant neu fathau arbennig o angen. Ond yn ein barn ni, mae cael polisi lle na chaiff asesiadau eu cynnal ar gyfer grwpiau penodol o blant neu fathau arbennig o angen yn golygu polisi cyffredinol sy'n rhwystro ystyried anghenion plentyn yn unigol ac yn ôl eu teilyngdod ei hunain.

Pennu darpariaeth mewn datganiadau

5. Fel Awdurdodau, byddwch yn ymwybodol o gefndir cyfreithiol a dyfarniad y Llys Apêl yn achos Y Frenhines (ar gais IPSEA Ltd) a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau (amgaeir copi i chi gyfeirio ato). Ymddengys fod hyn yn awgrymu bod rhai awdurdodau'n gweithredu polisiau cyffredinol sydd byth yn mesur darpariaeth addysgol ar gyfer grwpiau penodol o blant, mathau o angen neu fathau penodol o leoliad.

6. Mewn rhai achosion, bydd awdurdodau'n nodi anghenion addysgol arbennig plentyn yn fanwl yn Rhan 2 eu datganiad ond yn gadael y ddarpariaeth yn agored i'r ysgol benderfynu'n llawn neu o ran yr opsiynau. Er enghraifft, gall hyn fod yn nifer penodol o oriau o gymorth gan gynorthwyydd cymorth neu amser pro-rata gan athro cymorth neu gyfarpar, heb bennu'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion unigol plentyn. Bydd awdurdodau eraill yn cyfeirio'n unig at fand penodol o gyllid sy'n dod o'u system leol o gyfrifo cyllid neu swm o arian, ac ni fyddant bob amser yn pennu'n glir y ddarpariaeth y mae i fod ei hariannu.

7. Yn ein barn ni, mae unrhyw bolisi gan awdurdod lleol sy'n gwahardd, rhwystro neu hyd yn oed yn annog ei swyddogion i beidio â phennu darpariaeth addysgol yn glir ac yn fanwl a/neu i beidio â mesur darpariaeth addysgol i grwpiau penodol o blant yn debygol o arwain at dorri'r canlynol:-

- 324(2) a (3) Deddf Addysg 1996, sy'n darparu bod yn rhaid i'r datganiad gynnwys yr wybodaeth a ragnodir a rhaid pennu'r ddarpariaeth addysgol i'w gwneud at ddiben diwallu'r anghenion a nodir yn y datganiad;
- rheoliad 16(b) o Reoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002, sy'n darparu bod rhaid i'r datganiad gynnwys yr wybodaeth a bennir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth addysgol gael ei phennu yn nhermau unrhyw gyfleusterau, cyfarpar, trefniadau staffio a chwricwlwm priodol.....); ac

- adran 313(2) Deddf Addysg 1996, sy'n rhoi dyletswydd ar AALLau i ystyried y darpariaethau yng Nghod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002), sy'n datgan y dylai datganiadau bennu'r ddarpariaeth addysgol arbennig sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion y plentyn, rhoi manylion am y ddarpariaeth briodol i ddiwallu pob angen a nodir ac fel rheol mesur y ddarpariaeth.

Naming a school in a child's statement

8. Mae gohebiaeth arall a gawson wedi tynnu sylw at rai camddealltwriaethau o'r prosesau i'w dilyn cyn enwi ysgol yn Rhan 4 datganiad. Gobeithio bod y canlynol yn egluro'r sefyllfa.

9. Pan fydd awdurdod lleol, ar ôl cynnal asesiad statudol cychwynnol o blentyn neu pan yw'n diwygio datganiad, yn anfon copi o ddatganiad arfaethedig neu ddatganiad diwygiedig arfaethedig neu gopi o'r datganiad presennol a hysbysiad diwygio at y rhiant, rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig sy'n cyd-fynd â'r dogfennau hyn gynnwys yr wybodaeth fel a bennir yn Atodlen 1 i Reoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002, drwy reoliadau 14 ac 15 o'r Rheoliadau hynny).

10. **Rhaid** i'r wybodaeth hon gynnwys rhestr o bob ysgol gynradd neu uwchradd yn yr ardal, fel sy'n briodol i oedran y plentyn. Rhaid i chi hefyd ddarparu rhestr o bob ysgol arbennig nas cynhelir fel y cymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996 a rhestr o ysgolion annibynnol a gymeradwyir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynt) o dan adran 347 o Ddeddf Addysg 1996.

Ysgolion a Gynhelir

11. Rhaid gwahodd rhieni i enwi'r ysgol a gynhelir yr hoffent i'w plentyn ei mynychu. Pan fydd rhiant yn mynegi ei fod yn ffafrio ysgol benodol a gynhelir (ysgol prif ffrwd neu ysgol arbennig), rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r ysgol dan sylw, ac yn achos ysgol a gynhelir gan awdurdod arall, yr awdurdod lleol hwnnw hefyd. Wrth ymgynghori, mae'n rhaid i'r Awdurdod anfon copi o'r datganiad arfaethedig, y datganiad diwygiedig, neu'r datganiad cyfredol a hysbysiad diwygio. Ym mhob achos rhaid cynnwys yr atodiadau i'r datganiad. Fel rhan o'r broses ymgynghori dylai'r Awdurdod ysgrifennu i'r ysgol a'r awdurdod arall i ofyn iddynt, yn eu barn nhw:

- a yw'r ysgol yn anaddas i oedran y plentyn, ei allu neu ei ddawn neu ei anghenion addysgol arbennig;
- a fyddai presenoldeb y plentyn yn anghydnaws ag addysg effeithlon y plant y byddai'n cael ei addysgu yn eu cwmni, neu
- a fyddai presenoldeb y plentyn yn anghydnaws â'r defnydd effeithlon o adnoddau.

12. Nodir y meini prawf hyn ym mharagraffau 3 a 3A Atodlen 27 i Ddeddf Addysg 1996.

13. Os yw'r ysgol neu'r awdurdod lleol yn gwrthwynebu enwi'r ysgol a ffafir gan y rhieni am unrhyw un o'r rhesymau uchod, dylai'r awdurdod "cartref" ystyried yn ofalus iawn eu rhesymau dros wneud hynny, cyn penderfynu a ddylid enwi'r ysgol ai peidio, nid lleiaf oherwydd unwaith y bydd awdurdod lleol yn enwi ysgol benodol a gynhelir yn natganiad plentyn, rhaid i'r ysgol honno dderbyn y plentyn.

Os nad yw rhiant yn mynegi ffafriaeth

14. Os nad yw rhiant yn mynegi ei fod yn ffafrio ysgol benodol a gynhelir neu os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu peidio ag enwi enw'r ysgol a ffafir gan y rhiant yn y datganiad, rhaid i'r awdurdod serch hynny bennu ysgol neu sefydliad arall yn y datganiad y mae'r awdurdod yn ystyried a fyddai'n briodol i'r plentyn.

15. Wrth ystyried ysgolion posibl ar gyfer plentyn, **rhaid** cofio bod **rhaid** addysgu'r plentyn mewn ysgol brif ffrwd, oni fyddai hyn yn anghydnaws â dymuniadau'r rhiant neu addysg effeithlon y plant eraill ac nad oes unrhyw gamau rhesymol y gellid eu cymryd i atal yr anghydnawsedd hwnnw (adran 316 y Ddeddf).

16. **Rhaid** i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r ysgol ac, yn achos ysgol a gynhelir gan awdurdod arall, â'r awdurdod lleol hwnnw hefyd. Fel rhan o'r ymgynghoriad dylai'r Awdurdod ysgrifennu i'r ysgol a'r awdurdod arall i ofyn iddynt, yn eu barn nhw, a fyddai presenoldeb y plentyn yn yr ysgol yn anghydnaws ag addysg effeithlon y plant eraill ac i ystyried a oes unrhyw gamau rhesymol y gallent hwy neu awdurdod arall eu cymryd i osgoi anghydnawsedd o'r fath.

17 Os yw'r ysgol neu'r awdurdod lleol yn gwrthwynebu enwi'r ysgol ar y sail hon, dylai'r awdurdod ystyried yn ofalus iawn eu rhesymau dros wneud hynny cyn penderfynu a ddylid enwi'r ysgol ai peidio.

Trosglwyddo rhwng cyfnodau

18. Rydym yn ymwybodol o rai achosion lle mae plant â datganiadau heb fod yn yr ysgol ar ddechrau tymor. Rhaid i holl ddatganiadau plant sy'n trosglwyddo o un cyfnod i'r llall, gan gynnwys o ysgol fabanod i ysgol iau, o ysgol gynradd i ysgol uwchradd, o'r ysgol gyntaf i'r ysgol ganol ac o'r ysgol ganol i'r ysgol uwch, gael eu diwygio i enwi ysgol erbyn 15 Chwefror yn y flwyddyn academaidd cyn hynny fan bellaf. Mae hyn er mwyn sicrhau bod rhieni sy'n anhapus â'r ddarpariaeth yn natganiad eu plentyn yn cael digon o amser i fynd ag apêl i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ac i alluogi unrhyw faterion lleoli mewn ysgol i gael eu setlo ymhell cyn dechrau'r flwyddyn ysgol, gan gynnwys unrhyw gŵynion i Weinidogion Cymru o dan adrannau 496 a 497 Deddf Addysg 1996.

19. Mae'n hanfodol dechrau'r broses yn gynnar er mwyn osgoi gadael plant â datganiadau heb le mewn ysgol ar ddechrau'r flwyddyn ysgol. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod ysgolion yn gwybod bod ystyriaeth wedi'i rhoi i'w safbwyntiau ac, yn achos ysgolion a gynhelir, unwaith iddynt gael eu henwi mewn datganiad plentyn, ei bod yn ddyletswydd statudol arnynt i dderbyn y plentyn hwnnw.

20. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech dynnu sylw'r swyddogion hynny yn eich Awdurdod sy'n delio â'r materion hyn at y llythyr hwn, fel y gellir sicrhau cydymffurfiaeth â'r darpariaethau statudol perthnasol.

Yn gywir

A D LANSDOWN

Pennaeth yr Is-adran Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant

Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Ffôn Tel: 029 2082 3360
Ffacs Fax: 029 2080 1044
Epost: Email: Alan.Lansdown@
Wales.GSI.Gov.UK